

<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>27 Chwefror 2018</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Strategaeth Iaith Gwynedd</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>Gwenllian Williams</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	Rhoi diweddariad i'r Aelodau ar ddatblygiad y Strategaeth

## 1. Cefndir

- 1.1 Yn unol a gofyn Safon 145 (Safonau'r Gymraeg, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), mae dyletswydd statudol arnom i ni lunio strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn ein ardal.
- 1.2 Mae angen i'r strategaeth honno, ymysg pethau eraill, nodi targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir.
- 1.3 Mae gan Wynedd Strategaeth iaith ers rhai blynyddoedd a'r un gyfredol yn weithredol ers 2014. Cafodd y Strategaeth honno ei chyhoeddi yn enw Hunaniaith, y fenter iaith, gyda'r Cyngor yn brif bartner iddi. Hunaniaith fuo yn bennaf gyfrifol am weithrediad y Strategaeth.
- 1.4 Bydd y Strategaeth newydd yn cael ei gyrru gan y Cyngor, a bydd gofyn i holl adrannau'r Cyngor, yn ogystal a phartneriaid allanol gyfrannu tuag at weithredu ei hamcanion. Bydd hefyd yn adlewyrchu'r ymrwymadau a wneir yng nghyswllt yr iaith yng Nghynllun y Cyngor a Chynllun Llesiant Gwynedd a Môn.

## 2. Crynodeb o'r gwaith hyd yma:

- 2.1 Cafwyd gweithdy cychwynnol gyda'r Pwyllgor Iaith ar y 12fed o Hydref i gasglu barn a syniadau am flaenoriaethau'r Strategaeth. Cynhaliwyd gweithdy hefyd gyda swyddogion Hunaniaith.
- 2.2 Gan ei bod yn hollbwysig bod y Strategaeth iaith yn adlewyrchu blaenoriaethau'r cynlluniau strategol eraill sydd wrthi yn cael eu datblygu gan y Cyngor, rydym wedi gohirio yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r Strategaeth, ac wedi symud y cyfnod ymgynghori o ddechrau 2018 i wanwyn 2018.
- 2.3 Mae strategaeth ddrafft wedi ei llunio ar sail y gweithdai uchod a dadansoddiad o strategaethau a chynlluniau perthnasol eraill.

### **3. Camau nesaf**

- 3.1 Bydd y drafft yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ar...er mwyn ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghori.
- 3.2 Bydd Proses Ymgynghori yn cael ei chynnal fydd yn cynnwys ymgynghori gyda'r Pwyllgor Iaith, Penaethiaid gwasanaethau'r Cyngor, a phartneriaid allanol fydd yn cynnwys cyrff cyhoeddus eraill a chynrychiolwyr cymunedol.

Gofynnir i'r aelodau dderbyn y diweddariad uchod a chynnig unrhyw sylwadau.